## Sul y Blodau

**Darllen Mathew 21:5**

Heddiw dilynwn y dorf i mewn i'r ddinas. Ond mae'r orymdaith hon yn wahanol. Hyd y gwelwn does yna'r un poster i'w weld yn unman na'r un hawliad na gorchymyn i'w glywed o du'r dorf. Pwrpas yr orymdaith yw tynnu sylw'r bobl gyffredin, hynny yw'r bobl nad oedd ganddyn nhw unrhyw fath o awdurdod. Dyma orymdaith Sul y Blodau. Does neb yn hawlio mwy o gyflog, neb yn bloeddio am amodau byw gwell i'r difreintiedig, neb hyd yn oed yn protestio yn erbyn yr Awdurdod Iechyd! Gorymdaith araf, heddychlon, a'r mul bach sy'n pennu'r cyflymder. A dydi'r un sydd ar gefn y mul bach ddim yn bygwth neb â'i hawliau. Gofynnwch i'r glowyr, y dynion tân, dynion y rheilffordd a'r athrawon ai dyma'r ffordd i orymdeithio. Mae'r gorymdeithio gorau yn mynd law yn llaw ag ymladd yn galed dros hawliau a mynd ar streic fel bo'r angen. Ac mae'r canlyniadau'n tystio i hynny – cyflogau ac amodau gwaith gwell. Yng ngoleuni'r fath ganlyniadau, mae gorymdaith Sul y Blodau yn jôc.

Ac ym marn yr awdurdodau yn Jerwsalem, roedd y cyfan yn bathetig. Mae'n rhaid cofio bod y genedl Iddewig dan iau'r Ymerodraeth Rufeinig, a'r unig ffordd i ddiddymu a dileu'r grym hwn oedd trwy ymosod ac ymladd. Ond roedd Iesu o Nasareth yn pledio ffordd arall. Pwrpas gweinidogaeth Iesu oedd dangos i'r genedl nad treisio a lladd oedd y ffordd orau ond argyhoeddi'r genedl, a'i hatgoffa trwy ei hysgrythurau mai cyfiawnder, gwirionedd a thrugaredd oedd nodweddion y deyrnas.

Digwyddiadau Sul y Blodau oedd pregeth weladwy Iesu i argyhoeddi'r bobl gyffredin a'r awdurdodau. Dyma'i apêl olaf. Dyna pam y marchogodd mor dangnefeddus ar gefn ebol asyn. Mae'n pledio â nhw, 'Wnewch chi gerdded fy llwybr i, neu a ydych am fynnu troedio eich llwybr chi – llwybr trais a llwybr talu'r pwyth yn ôl?' Dyna'r dewis. Dyna'r unig ddewis. Gwyddai'n iawn beth fyddai dewis awdurdodau Jerwsalem. Ymhen y rhawg, a'r dagrau'n llifo, safodd i edrych ar y ddinas. Gwireddwyd ei eiriau yn y flwyddyn OC 70 pan adawyd Jerwsalem yn garnedd.

Ym mhob cymdeithas, ym mhob cyfnod mae'r dorf yn barod i floeddio, 'I'r gad, i'r frwydr, ymladdwn i'r diwedd'. Ond mae yna unigolyn ym mhob cyfnod sy'n dal i farchogaeth ebol asyn gan alw am ddilyn llwybr arall. Erbyn diwedd yr wythnos roedd y gŵr a farchogodd i Jerwsalem wedi'i groeshoelio. Ac ar y groes gwrthododd daro'n ôl, ac ni chlywyd yr un gair o gasineb. Hawdd iawn fyddai iddo regi'r milwyr oedd yn pwyo'r hoelion i'w gorff a'r terfysgwr oedd yn ei watwar. Gallai'n hawdd gyhuddo'i ddisgyblion o'i adael yno ar ei ben ei hun. Ond gwrthododd wneud hynny. Beth wnaeth o felly? Caru, maddau, cofleidio a thrugarhau. Dyma nodweddion y deyrnas. Fel hyn mae'n rhaid byw meddai Iesu ar Sul y Blodau a Gwener y Groglith.

**Myfyrdod pellach:**
Ai cydnabod Iesu'n Dywysog Tangnefedd yw amod y cam nesaf ymlaen yn hanes ein byd?
Tybed a wnaeth Iesu fwy o ddrwg wrth farchogaeth ar ebol asyn i'r ddinas?

***Huw John Hughes***